

Ymateb i heriau cymhleth ein byd



Wythnos Cymorth Cristnogol 2022: 15–21 Mai

Mae heriau ein byd yn aml a dyrys. O ryfel yn Wcráin, newyn yn Affganistan ac effeithiau'r argyfwng hinsawdd drwy'r byd i gyd, byddai'n hawdd troi'n fewnblyg a digalonni. Ond yn ystod Wythnos Cymorth Cristnogol (15–21 Mai) mae cyfle i ymateb yn gadarnhaol i'r heriau hyn. Trwy roi, gweithredu a gweddio, gallwn wneud gwahaniaeth go iawn.

Mae'r gwrthdaro yn Wcráin wedi mynd â sylw'r byd dros y misoedd diwethaf. Un canlyniad i'r ymladd yno yw bod prisiau grawn wedi codi, gan fod Wcráin yn wlad sy'n cynhyrchu cymaint o rawn ar gyfer y byd.

Wrth gwrs, bydd y gwledydd cyfoethog yn gallu ymdopi â'r prisiau uwch, ond i'r gwledydd tlawd mae'n fater gwahanol. Mae gwlad fel Zimbabwe, er enghraifft, eisoes yn ei chael hi'n anodd cynhyrchu ei bwyd ei hun oherwydd y newid yn yr hinsawdd, a bydd prisiau uwch yn ychwanegu at yr argyfwng.

Zimbabwe gaiff sylw Wythnos Cymorth Cristnogol eleni. Mae partneriaid Cymorth Cristnogol yn gweithio yno er mwyn eu helpu i addasu eu dulliau amaethyddol. Mae Janet Zirugo (yn y llun) yn fam-gu 70 oed ac wedi gweld ei bywyd yn cael ei drawsnewid gan y technegau newydd.



Janet, y ceir ei hanes yn yr erthygl

Un peth yn benodol sydd wedi ei helpu yw'r hadau newydd y mae'n eu defnyddio erbyn hyn. Mae'r hadau hyn yn wydn iawn mewn cyfnodau sych a thrwy eu defnyddio gall Janet sicrhau cynydu da ar gyfer ei theulu. Mae wedi gallu troi ei thir sych a llychlyd yn ardd lawn llysiaru lliwgar.


Dyma'r hyn y mae Wythnos Cymorth Cristnogol yn gallu ei gyflawni. Mae'r arian yr ydych yn ei godi yn hollbwysig yng ngwaith y mudiad o amgylch y byd.

Bydd pob math o weithgareddau'n digwydd ledled Cymru o amgylch cyfnod yr Wythnos, yn cynnwys nifer o unigolion a grwpiau sydd am gyflawni her y 300,000 o gamau trwy fis Mai. Mae'r her hon wedi cydio yn nychymyg llawer ers iddi gael ei threialu ddwy flynedd yn ôl.

Un person sydd am gyflawni'r her hon ydi'r Parchedig Andrew Sully o Landudno. Mae wedi gosod nod sylweddol iawn iddo'i hun, sef cerdded o'r Waun i Gaernarfon gan gysylltu pob un o gestyll y gogledd ar y ffordd, 22 ohonynt. Bydd wedi cerdded dros 300,000 o gamau erbyn diwedd mis Mai heb os!

Os yw ymdrech Andrew yn eich ysbrydoli, beth am drefnu eich taith eich hun yn lleol? Cewch fwy o wybodaeth ar [ein gwefan](#): neu drwy ffonio ein swyddfa yng Nghaerdydd: 029 2084 4646 neu drwy e-bostio cymru@cymorth-cristnogol.org

Mae problemau ein byd yn gymhleth ac yn rhyng-gysylltiol, ond trwy sefyll mewn undod gyda'n brodyr a'n chwirydd, gallwn wneud gwahaniaeth go iawn i fywyd llawer ohonynt.



Andrew Sully a'i lyfr diweddar am gestyll

Bedyddio yn Horeb

Hyfryd oedd gweld Capel Horeb, Rhostryfan, yn llawn fore Sul, 3 Ebrill, ar achlysur bedyddio Mali, merch Ella Fflur Rees Williams, Disgwylfa, Parc Crescent, gyda'r Parch Dafydd Coetmor Williams yn gweinyddu a Mrs Rhiannon Hughes wrth yr organ.

Ar ddechrau'r gwasanaeth cyfeiriwyd at y cawg bedydd arian sy'n dyddio'n ôl i 1890 ac yn rhoddedig gan gyfaill anhysbys i'r eglwys. Bydd enw Mali yn cael ei nodi yn Llyfr Bedyddiadau'r Eglwys, sy'n dyddio'n ôl i 1850.

Ar ddiwedd y gwasanaeth, tynnwyd llun o Mali gyda'i mam, Ella, ac Elin Hughes, Alaw Williams, Llŷr Roberts a'r Parch Dafydd Coetmor Williams.

*Clifford Owen
Ysgrifennydd Capel Horeb*



Eglwys Bresbyteraidd Cymru The Presbyterian Church of Wales

Mae Eglwys Bresbyteraidd Cymru yn chwilio am Ysgrifennydd Cyffredinol a Chyfarwyddwr Gweinidogaethau

Oriau – 35 awr yr wythnos

Tymor – Mae'r swydd hon yn barhaol, gyda'r 6 mis cyntaf yn gyfnod prawf
Cyflog – Pwynt 65 ar raddfa EBC (£46,059), ynghyd â llety /lwfans tŷ a char/lwfans car

Croesewir ceisiadau gan unigolion sydd wedi eu hordeinio'n weinidogion yn EBC. Mae'r swydd hon yn amodol ar ddatgeliad DBS manwl a dau eirdd boddhaol. Mae'n ofyniad galwedigaethol bod ymgeiswyr ar gyfer y swydd yn Gristion ac yn rhugl yn y Gymraeg.

Am ddisgrifiad swydd a ffurflen gais cysylltwch â Mrs Eleri Melhuish
Eleri.Melhuish@ebcpcw.cymru neu 029 2062 7465.

Am sgwrs anffurfiol, cysylltwch â'r Parch Evan Morgan:
Evan.Morgan@ebcpcw.cymru

Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: 3 Mai, 9yb
Cynhelir y cyfweiliadau ar 12 Mai yng Nghaerdydd

Gofalaeth Bethel, Llanddewi Efelfre, Tabernacl, Hendy-gwyn ar Daf a Triniti, Llanboidy

Mae'r eglwysi Annibynnol hyn yn awyddus i barhau gyda gweinidogaeth lawn amser. Gyda'r dyhead hwn, rydym yn gwahodd unrhyw eglwys neu grŵp o eglwysi Annibynnol, Bedyddiedig neu Bresbyteraidd sydd â diddordeb i ymuno â'r ofalaeth.

Am fwy o fanylion, cysylltwch â Meryl James
Ysgrifennydd yr Ofalaeth
Ffôn: 01994 240350
E-bost: meryljames534@btinternet.com
Erbyn diwedd mis Mehefin.

Teithiau Elfyn Thomas Tours

01407 731080

Drama'r Dioddefaint Oberammergau 2022

Ymunwch ag un o'n teithiau arbennig o ogledd Cymru

Cynwys: Trefniant swyddogol
2 noson yn Oberammergau
Seddi Categori 1 i weld y perfformiad

9 noson: swper, gwely a brecwast

16–25 Awst: 10 Diwrnod – £1749
Soll a'r Tyrol Rhaeadr Krimml
Llyn Achensee

15–24 Medi: 10 Diwrnod – £1749
Innsbruck Alpau Awstria
Llyn Constance a Lindau Feldkirch

Peidiwch â cholli cyfle,
dyddiad nesa 2030
Ychydig o seddi ar ôl
ar y ddau ddyddiad
Codwch y ffôn am fwy o
fanylion, neu ewch i'n gwefan:
www.elfynthomas.com

Newid Bywydau: cefnogaeth ymarferol i weithwyr plant

Heb os, bu'r ddwy flynedd ddiwethaf hyn yn rhai heriol iawn i weithgarwch gyda phlant yn yr eglwys, a gwelwyd llawer yn penderfynu rhoi'r gorau i fod yn athrawon ac yn arweinwyr. Mae'n debyg y bydd angen i eraill gamu i'r adwy i barhau'r traddodiad o gyflwyno'r efengyl i'n plant. Bydd llawer, fodd bynnag, yn teimlo'n ddihyder ac yn chwilio am ganllaw ac arweiniad. Mae *Newid Bywydau* yn cynnig yr arweiniad hwnnw mewn cyfrol hwylus a chryno. Os ydych yn gweithio gyda phlant ac ieuencid yn yr eglwys (neu'n ystyried dechrau gwneud hynny), dyma gyfrol allai fod o gymorth i chi; mae'n sôn am faterion ymarferol ac ysbrydol mewn perthynas â gweithio gyda phlant mewn ysgol Sul / clwb plant / clwb ieuencid.

Mae Cyngor yr Ysgolion Sul yn falch iawn o'r cyfle i gael cydweithio ag Athrofa Padarn Sant, Caerdydd, i hyrwyddo a hybu llyfr Cymraeg gan Mark Griffiths yn dwyn y teitl *Newid Bywydau*. Mae Mark wedi bod yn ffigur amlwg ym maes gweinidogaeth plant ac ieuencid ers nifer fawr o flynyddoedd, ac wedi cyhoeddi cyfrolau ar ysbrydolrwydd plant, sut i weinidogaethu ymhlith plant, a sawl cyfrol o wersi Beiblaidd i blant. Magwyd Mark yn ne Cymru, ond treuliodd flynyddoedd lawer yn gweinidogaethu yn Lloegr, ac yn arwain gweinidogaeth [New Wine](#). Erbyn hyn mae'n hyfforddi ar waith plant, ieuencid a theuluoedd yn Athrofa Padarn Sant yng Nghaerdydd, sef adain hyfforddiant yr Eglwys yng Nghymru.

Rai blynyddoedd yn ôl fe gyhoeddodd Mark lyfr i gwmni cyhoeddi Lion Publishing yn dwyn y teitl *Changing Lives: touching hearts*, cyfrol oedd yn cynnig canllawiau ymarferol ar sut i weithio'n genhadol ymhlith plant. Yn ystod y misoedd diwethaf hyn aed ati i gyfieithu'r gyfrol i'r Gymraeg. Mae *Newid Bywydau* yn trafod y cyfan fydddech am ei wybod am weithio gyda phlant a theuluoedd – sut, ble a pham?

Treiddia Mark Griffiths i mewn i hanes, diwinyddiaeth ac elfennau ymarferol gweinidogaeth gyda phlant a theuluoedd. Mae'n rhannu ei ddoethineb a'i flynyddoedd o brofiad yn arwain cannoedd o grwpiau gwaith plant ac o gynnal gwasanaethau mewn eglwysi. Mae hwn yn llawlyfr sy'n llawn syniadau ac adnoddau ymarferol,

gan ddangos sut i gyfathrebu â phlant mewn eglwys ac ysgol, ac yn y gymuned.

Fe'n cynorthwya i ddatblygu gweledigaeth ac i lunio strategaeth ar gyfer gweinidogaethu i blant a theuluoedd, y tu mewn a'r tu allan i strwythurau ein heglwysi. Mae'n trafod materion fel cadw cofnodion, ymweld â chartrefi, trefnu amserlen a chynllun gwaith, pwysigrwydd gwarchod a diogelu, llunio templedi ar greu gwersi bywiog a chadw diddordeb y plant. Dyma ganllaw allweddol ac ymarferol i bawb sy'n gweithio gyda phlant.

Nid yw'r gyfrol hon ar gael yn y siopau, ond mae modd archebu copi trwy yrru siec am £12 yn daladwy i 'Cyngor Ysgolion Sul' at Aled Davies, Cyngor yr Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwillog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH.

Noder hefyd y bydd Cyngor yr Ysgolion Sul yn trefnu taith o ugain noson o gwmpas Cymru – deg noson yn ystod mis Gorffennaf a deg noson arall ddechrau mis Medi – er mwyn cyflwyno'r adnoddau diweddaraf sydd ar gael gennym. Fe ddaw mwy o wybodaeth am ddyddiadau a lleoliadau yn fuan.


Tybed ydych chi'n darllen hwn ac yn byw mewn ardal lle nad oes ysgol Sul neu glwb plant ar hyn o bryd?

Efallai fod Duw yn eich galw chi i sefydlu gwaith newydd.

Beth am drafod gydag eraill o'ch cwmpas i weld a oes cyfle i gydweithio?

Aled Davies

www.ysgolsul.com



Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i'r Parchedig Athro Densil Morgan, Cadeirydd Grŵp Llywio *Cenn@d*, ar ennill gwobr Francis Jones am Hanes Cymru, Coleg Iesu, Rhydychen, am y gwaith gorau ar hanes Cymru a gyhoeddwyd yn 2021. Dyfarnwyd y wobwr iddo am ei ddwy gyfrol, *Theologia Cambrensis: Protestant Religion and Theology in Wales*.



DATHLIAD CENHADOL MERCHED Y GOGLEDD

HENADURIAETH MÔN

CAPEL DISGWYLFA,
GAERWEN
DYDD MERCHER
MAI 4ydd, 2022
am 2 o'r gloch

SIARADWRAIG WADD:

Dr Rhiannon Ifans, Aberystwyth
ar y thema

Gobaith yn Iesu 'Yr Alfa ac Omega'

Croeso Cynnes i Bawb

Gwneir casgliad at waith
Cenhadol a Phrosiectau
Is-bwyllgor y Chwiroydd



LL60 6DN



Taith gysegredig?

Ddechrau Ebrill anfonwyd llythyr at Brif Weinidog San Steffan gan grŵp o bobl a gasglwyd ynghyd gan Steve Chalke, gweinidog gyda'r Bedyddwyr a Phrif Weithredwr Ymddiriedolaeth [Oasis](#); roedd y grŵp hefyd yn cynnwys Rowan Williams, cyn-Archesgob Caergaint.

Mae'r llythyr yn cynnwys y frawddeg: 'Mae bod yn Draws yn golygu cychwyn ar daith gysegredig tuag at gyfanrwydd: bod yn werthfawr, yn anrhydeddus, yn annwyl, i chi eich hunan, i eraill ac i Dduw.'

Nod y llythyr yw cefnogi pobl drawsrywiol i gael eu cynnwys yn y gwaharddiad ar 'conversion therapy'. Er bod nifer o ganllawiau cadarn mewn lle yn barod, mae llawer yn teimlo bod angen mynd ymhellach. Gallai hyn olygu na chaiff gweinidog bregethu bod rhai arferion yn bechod, fel y dywed y Beibl, a bod galw ar bobl i edifarhau yn dod yn anghyfreithlon.

Mae'r gair 'cysegredig' yn awgrymu'n gryf fod rhyw elfen ysbrydol, grefyddol a hyd yn oed dduwiol i'r broses o drawsnewid rhywedd neu fyw mewn ffordd sy'n dderbyniol i'r hunan, beth bynnag ddywed y Beibl am hynny.

I'r Cristion, Duw yn unig sydd yn sanctaidd mewn ystyr absoliwt, ac mae'n ein galw ni i fod yn sanctaidd trwy edifarhau am yr hyn y mae Ef yn ei adnabod yn bechod, i edrych allan ohonom ein hunain at yr Arglwydd Iesu Grist, ein Gwaredwr a'n Harglwydd. Mae ef yn addo ein gwneud yn dderbyniol i'r Duw sanctaidd yn awr drwy ffydd yn Iesu Grist a'i gyfiawnder Ef, ac yn ogoneddus sanctaidd yn y pen draw, mewn nef newydd a daear newydd. Mae'r Arglwydd Iesu yn galw ar unrhyw un sydd am fod yn ddisgybl i wadu ei hunan, codi'r groes a'i ddilyn.



Steve Chalke (CC BY-SA 4.0)

Mae'n ofid calon meddwl bod arweinwyr Cristnogol amlwg yn galw ar bobl i ufuddhau i'r hunan – rhyw hunaniaeth ddirlgel, fewnol y mae'n rhaid i'r corff gydymffurfio â hi. Yr hunaniaeth fewnol yma sydd dduw, ac mae'n rhaid i bopeth – ffordd o fyw, ymddygiad rhywiol, siâp a ffurf y corff – ildio iddo.

Onid yw'r Hen Destament yn dangos nad trwy anafu'r corff fel addolwyr Baal y mae plesio Duw a chael gwrandawriad ganddo, ond trwy ufuddhau i'w Air a galw arno mewn ffydd, fel y gwnaeth Elias?

Onid yw'r Testament Newydd yn brwydro yn erbyn y syniad bod y corff yn ddrwg, yn garchar i'r enaid? Dyna oedd pwyslais y Gnostigiaid Groegaidd oedd yn dysgu bod pechodau'r corff, fel puteindra, yn dderbyniol.

Cymerodd ein Duw ni gorff dynol, daearol, er mwyn ein hachub oddi wrth ein pechodau, ac oddi wrth ei ddigofaint.

Dioddefodd yn y corff hwnnw a bu farw, er mwyn i ni gael atgyfodiad ysbrydol yn gyntaf – o fod yn farw ac wedi ein datgysylltu oddi wrth Dduw – i fod yn fyw i Dduw trwy fod mewn undeb clòs ag Iesu Grist. Yna, fe gawn atgyfodiad corfforol pan ddaw Iesu Grist yn ôl, gyda chorff fel ei gorff nefol gogoneddus Ef. Yna, cawn fyw fel pobl sanctaidd a chyfan, yn gorff ac enaid, ym mhresenoldeb gogoneddus Duw mewn nefoedd a daear newydd.

Iesu Grist yw ein hunig obaith am gyfanrwydd, yr unig ffordd i ddod yn blant Duw ac yn etifeddion bywyd tragwyddol. Ein gobaith ni yw ei gyfiawnder Ef – ei fywyd cysegredig Ef, ei farwolaeth yn ein lle ar y groes, ei atgyfodiad corfforol y trydydd dydd – a'r ffaith fod Duw yn addo ein derbyn yn llawn drwy i ni ymddiried yn ei Fab, a'n newid i fod yn debyg i Iesu Grist yn y pen draw – yn enaid a chorff.

John Treharne

S4C

Dechrau Canu, Dechrau Canmol
Sul, 1 Mai, am 7.30yh (ailddarlledir am 11:30yb y Sul canlynol)

Y diweddar Barch. Elfed ap Nefydd Roberts sy'n cael ein sylw – gŵr a gyfrannodd lawer fel addysgwr, pregethwr, gweinidog, awdur a darlledwr

BBC radio cymru

Caniadaeth y Cysegr
Sul, 1 Mai, am 7:30yb a 4:30yp

Mererid Hopwood yn trafod emynwyr a cherddorion o amrywiol wledydd sydd wedi cyfrannu tuag at ein hemynyddiaeth

Sul, 1 Mai, am 12:00yp

Gwasanaeth gorseddu Andy John yn Archesgob yr Eglwys yng Nghymru

Dathlu'r Pasg yng Nghapel Llanefydd



Roedd hi'n fore Sul y Pasg hapus yma yn Llanefydd wrth i ni ddathlu atgyfodiad Iesu Grist. Doedden ni ddim wedi cael gwasanaeth byw ar Sul y Pasg ers tair blynedd, felly roedd gwir deimlad o ddathlu yn ein hoedfa deuluol. Roedd trawstoriad eang o oedrannau yno – plant ifanc, ieuentid, rhieni ac oedolion hŷn – a'r syniad o berthyn i gymdeithas arbennig yn nodwedd amlwg.

Ers rhai blynyddoedd, rydyn ni'n ceisio annog a chynnwys ein hieuentid yn ein dathliad Pasg ac eleni eto cafwyd ymateb grêt ganddyn nhw, gyda phob un yn fodlon cymryd rhan ac yn gwneud hynny'n wych. Yr Atgyfodiad oedd ein thema ac fe gysylltwyd ein harfer o fwyta wyau Pasg gweigion â'r bedd gwag. Cawsom ymateb Mair Magdalen i ddigwyddiadau'r bore arbennig hwnnw ac ymateb y merched aeth at y bedd. Clywsom am dystiolaeth Thomas, Seimon Pedr, Cleopas a Mair Magdalen, iddyn nhw gyfarfod yr Iesu byw, atgyfodedig. Yna'r cwestiwn a ofynnwyd oedd a oedd rhywun sydd yn fyw heddiw wedi gweld Iesu Grist, tybed?

Ein gŵr gwadd eleni oedd Arfon Jones ac fe rannodd ei brofiad a'i anogaeth gyda brwdfrydedd. Wrth siarad efo'r plant, nododd dair elfen bwysig am y Groes:

- bod croes yn cynrychioli'r ffaith bod rhywbeth o'i le yn ein bywydau;
- bod y groes yn amlygu croesffordd a bod gofyn i ni ddewis ffordd Crist;
- bod croes fel cusan ar waelod cyfarchiad yn symbol o gariad Duw tuag atom.

Wrth ateb cwestiwn yr ieuentid, rhoddodd Arfon nifer o enghreifftiau i gadarnhau'r ffaith i Iesu ddog yn fyw o'r bedd. Gwnaeth hynny mewn ffordd ddiwyll a bendithiol. Wnaeth neb ddwyn corff yr Iesu o'r bedd, meddai. Pam fyddai'r apostolion yn fodlon tystio i rywbeth nad oedd yn wir? Pam mae cymaint o Gristnogion yn fodlon dioddef a marw dros y gwirionedd yma? Rhannodd Arfon ei brofiad a'i dystiolaeth bersonol hefyd. Roedd ei neges yn glir i bawb oedd yno a chafodd wrandawriad hynod. Yn sicr, cawsom ein hysbrydoli ganddo i roi ein ffydd yn llwyr yn yr Iesu byw.

Gwnaed casgliad arbennig tuag at ffoaduriaid o Wcráin ac fe rannwyd wyau Pasg i bawb ar ddiwedd y gwasanaeth.

Mair B. Williams

'2022 – blwyddyn bwysig i ddysgwyr Cymru'

Mae 2022 yn flwyddyn bwysig yn hanes addysg yng Nghymru am y rhesymau canlynol:

- Ym mis Medi eleni bydd **Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021** yn cael ei gweithredu yn ein hysgolion cynradd gyda'r opsiwn i ysgolion uwchradd ddechrau ym mis Medi 2023. Fel rhan o'r newidiadau hyn, bydd y pwnc Addysg Grefyddol yn newid ei enw o fis Medi ymlaen i **Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM)**, a disgwylir iddo bellach gynnwys safbwyntiau athronyddol, digrefydd yn ei gwricwlwm. I gefnogi athrawon yn eu gwaith, disgwylir i bob awdurdod lleol ledled Cymru gynnal Cynhadledd Maes Llafur Cytunedig er mwyn paratoi Maes Llafur Cytûn i athrawon 'ei ystyried' wrth gynllunio eu cwricwlwm CGM. Mae gwaith sylweddol felly yn digwydd yn dawel yn y cefndir ac fe hoffwn ddiolch i bob cynrychiolydd o'r enwad sydd yn aelod o unrhyw Gyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG) am eu cyfraniad pwysig, pellgyrhaeddol;
- Mae'r cwricwlwm newydd yn gofyn i ysgolion sicrhau fod dysgwyr yn datblygu ymdeimlad dyls o **gynefin**, gan ddatblygu gwybodaeth am wahanol ddiwylliannau a hanes, a'u galluogi i feithrin ymdeimlad cryf o hunaniaeth unigol a deall sut y mae hyn yn cysylltu â dylanwadau ehangach ac wedi'u llywio ganddyn nhw. Mae eglwysi a chapeli a chymunedau ffydd, wrth gwrs, yn rhan hanfodol o'r cynefin hwn, a dyma agor cyfleoedd i eglwysi lleol ddyfnhau eu cysylltiadau â'u hysgolion lleol a chyfrannu hefyd at ddylunio cwricwlwm yn lleol. Rwy'n annog eglwysi lleol i wneud y gorau o'r cyfleoedd newydd hyn;
- Mae **Deddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020**, sy'n atal cosbi plant yn gorfforol, wedi dod i rym ym mis Ebrill eleni. Gweler tudalen flaen [Cenn@d, rhif 57](#), am sylwadau gwerthfawr Julie Edwards ar y mater hwn a'r ddolen [Rhowch Amser iddo](#);
- Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ar 21ain o Fawrth, 2021, y byddai'n sefydlu ei fersiwn ei hun o raglen cyfnewid Erasmus er mwyn llenwi'r bylchau yng nghynllun Turing a sefydlwyd gan lywodraeth Boris Johnson yn San Steffan. Fe gofiwch i Johnson dynnu allan o raglen Erasmus yr Undeb Europeaidd yn dilyn Brexit, Rhagfyr 2020. Bwriad Llywodraeth Cymru yw buddsoddi £65m (2022–26) yn y rhaglen newydd a enwir '**Taith**' ac mae'r cynllun yn weithredol ers 4 Mawrth eleni. Disgwylir i 15,000 o fyfyrwyr o Gymru fanteisio ar y rhaglen gyfnewid ryngwladol hon ac y bydd 10,000 o fyfyrwyr tramor yn dod i Gymru. Y gobaith yw y bydd y rhaglen bwysig hon yn cyfrannu at wella safonau ac ehangu gorwelion myfyrwyr Cymru;
- Fel rhan o'r Cytundeb Cydweithio rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru cynigir **prydau ysgol am ddim** i holl blant ysgolion cynradd Cymru erbyn Medi 2024. O fis Medi bydd rhai o blant ieuengaf yr ysgolion cynradd yn dechrau cael prydau ysgol am ddim wrth i'r polisi gael ei gyflwyno'n raddol.

Vaughan Salisbury
Swyddog Addysg EBC

Hawlia dy dir

Darllen: Josua 18:1-9 ac Actau 2:24-36

Rydymyn ddigon cyfarwydd â'r dywediad 'Dal dy dir', ac rydym yn gefnogol iawn i'r syniad tu cefn i'r geiriau: nid yw Cymru ar werth. Rydym ni am amddiffyn ein cymunedau cefn gwlad a'n Cymreictod.

Ond mae rhywbeth ychydig yn wahanol gennyf i chi heddiw: nid dal dy dir, ond hawlia dy dir. Roedd plant Israel wedi crwydro'r anialwch am ddeugain mlynedd, ond nawr maent yn paratoi i ddod allan o'r anialwch a meddiannu'r wlad sydd wedi ei haddo iddynt. Ond mae rhai ohonynt, wrth ddod allan o'r anialwch a chyrraedd tir Moab i'r dwyrain o'r loddonon, yn gofyn i Moses am setlo yno heb fynd ymhellach. Dydyn nhw ddim wedi cyrraedd gwlad yr addewid. 'Ond na,' dywedant. 'Ry'm ni'n iawn fan hyn', ac maent yn benderfynol o aros yno.

Ac felly y bu. Setlodd llwyth Reuben, llwyth Gad a hanner llwyth Manasse yn y dwyrain. Nid aethant mewn i wlad yr addewid. Plant Abraham oeddynt o hyd, o'i dylwyth ef. Roeddynt o'r ffydd iawn, o'r gred iawn, ond heb fynd mewn i wlad yr addewid, o'u dewis nhw eu hunain.

Cymharwch sut roedd y llwythau hyn yn ymateb i wlad yr addewid ag ymateb Caleb. Erbyn hyn mae'n 85 oed. Fe oedd un o'r ysbïwyr gwreiddiol oedd wedi mynd i mewn i'r wlad ar ôl croesi'r Môr Coch ddeugain mlynedd ynghynt. Fe welodd y wlad bryd hynny ac roedd yn gwybod yn iawn ei bod yn lle prydfarth a ffrwythlon. Roedd e wedi bod yn breuddwydio am fynd i mewn i Ganaan ers hynny. Nawr, y peth cyntaf mae'n ei wneud yw gofyn i Josua am Hebron a'r cyffiniau. Mae'n hawlio'i etifeddiaeth yn syth ac yn gosod esiampl i'r henoed hyd heddiw.

Cymharwch hefyd sut yr oedd merched Seloffehad wedi ymateb i feddiannu eu hetifeddiaeth. Doedd dim meibion gan Seloffehad, a'r adeg honno doedd dim modd i ferched etifeddu unrhyw beth. Felly, yn ôl eu diwylliant, mi fyddai enw ac etifeddiaeth Seloffehad yn marw allan. Mae'r merched yn mynd at Moses ac yn gofyn iddo wneud rhywbeth

am hyn, ac mae Moses yn mynd at yr Arglwydd i ofyn am arweiniad. Trodd yr Arglwydd y diwylliant ar ei ben. Mae merched Seloffehad yn cael etifeddu siâr 'meibion' y gŵr. Maent yn hawlio'u hetifeddiaeth.

Mae'r henoed yn meddiannu eu hetifeddiaeth. Mae'r merched yn meddiannu eu hetifeddiaeth, ond mae yna saith llwyth ar ôl o blant Israel sydd ddim wedi meddiannu modfedd eto. Maent yn byw fel teithwyr yn hytrach na thrigolion, fel tenantiaid yn hytrach na pherchnogion. Mae Josua yn eu herio, 'Am ba hyd yr ydych am esgeuluso mynd i feddiannu'r tir a roddodd Arglwydd Dduw eich tadau i chi?' Meddiannu'r tir yw eu cyfrifoldeb. Dyna'r cwbl sydd ar ol iddynt i'w wneud, ond maent yn oedi'n ddiangen.

Gydag atgyfodiad Iesu, mae yna wlad yr addewid ysbrydol o'n blaen. Rydym i fod i feddiannu a mwynhau rhinweddau a bendithion yr atgyfodiad, bendithion sydd ar gael i ni heddiw. Wrth ddarllen Actau'r Apostolion dyna'r pwyslais rydym yn ei weld ar bob tudalen, ym mhregethau'r apostolion ac yn eu bywydau. Mae'r llyfr ei hunan yn dechrau gyda'r Iesu wedi'i atgyfodi ac yn ymddangos i'r disgyblion. Yn syth ar ôl yr esgyniad, maent yn apwyntio apostol arall i fod yn dyst o'r atgyfodiad. Ar ddydd y Pentecost, o dan arweiniad yr Ysbryd Glân, y thema yw'r atgyfodiad. Oherwydd hyn roedd yr apostolion yn disgwyl gweld Crist ar waith. Roeddynt yn gwybod bod Iesu'n fyw, a gyda'r wybodaeth hon roeddynt yn disgwyl i rywbeth ddigwydd. Iacháu pobl? Mae Iesu'n fyw. Ateb gweddïau? Mae Iesu'n fyw. Arllwys yr Ysbryd arnom? Mae Iesu'n fyw. Agor carcharau? Mae Iesu'n fyw. Adeiladu'r eglwys? Mae Iesu'n fyw. Sefyll yn erbyn erledigaeth? Mae Iesu'n fyw. Trawsnewid bywydau pobl? Mae Iesu'n fyw. Ennill pobl i Grist? Mae Iesu'n fyw. Bedyddio pobl yn eu cannoedd? Mae Iesu'n fyw.

Un o'r pethau a ddywedodd Josua wrth blant Israel ar ôl iddynt feddiannu gwlad yr addewid oedd: 'Ni fethodd un o'r holl bethau da a addawodd yr Arglwydd i dŷ Israel; daeth y cwbl i ben'. Cyn iddo farw, casglodd Josua blant Israel at ei gilydd i ddathlu'r ffaith fod Duw wedi cadw ei air iddynt ac er mwyn iddyn nhw ymrwymo

o'r newydd iddo fe. Yr hyn sydd o bwys yw gweld lle y dewisodd Josua i gynnal eu cyfarfod cenedlaethol. Ar y pryd, roedd tabernacl yr Arglwydd yn Seilo yng nghanol y wlad. Yn y fan honno yr oedd y bobl yn arfer dod ynghyd, mewn lle canolog i offrymu eu haberthau ac i addoli. Ond y tro hwn dewisodd Josua Sichem, ddeg milltir i'r gogledd. Doedd dim tabernacl na theml yno, nac allor na thir sanctaidd. Ond tua phum can mlynedd ynghynt, yn y fan a'r lle fe glywodd Abraham Dduw yn sibwrdd yn ei glust, 'I'th ddisgynyddion di y rhoddaf y wlad hon'. Nawr, gyda phlant Israel wedi'u casglu ynghyd, mae Josua yn dangos y gwirionedd hwn i bawb: 'daeth y cwbl i ben'.

Yn atgyfodiad Iesu 'daeth y cwbl i ben' unwaith eto. Mae Ioan yn disgrifio'r ffordd yr oedd ef a Pedr wedi rhedeg at y bedd ar ôl clywed gan y menywod fod corff Iesu wedi diflannu. Ar ôl disgrifio hyn a ddigwyddodd, mae Ioan yn ychwanegu'r geiriau, 'Nid oeddent eto wedi deall yr hyn a ddywed yr Ysgrhythur, fod yn rhaid iddo atgyfodi oddi wrth y meirw'. Rhaid iddo atgyfodi? Mi fyddai gwaith ein hachubiaeth ar ei hanner heb ei atgyfodiad. Ni fyddai neb yn gwybod yn bendant a oedd Iesu yn Feseia ai peidio, a oedd e wedi dweud y gwir, a oedd ei aberth yn dderbyniol gan y Tad, a oedd y cwbl oll wedi'i dalu drosom ni.

Roedd yn rhaid iddo atgyfodi, ac roedd yr Ysgrhythurau eu hunain wedi tystio i'r digwyddiad. Mae Pedr yn tynnu sylw ei gynulleidfa at eiriau'r Salmydd, 'Ni adawyd ef yn Nhrifgan y Meirw, ac ni welodd ei gnawd lygredigaeth'. Mae hyder gennyf heddiw oherwydd 'daeth y cwbl i ben'.

Hawlia dy dir. Meddianna dy etifeddiaeth.

I'w drafod

- Beth sydd ar ôl i chi ei etifeddu?
- Beth yw bendithion yr atgyfodiad?
- Pam ydym ni'n cael cymaint o anhawster i fyw yng ngwirioneddau'r atgyfodiad? Ai fel yna y mae hi i bawb?

Stuart Bell

(Anerchiad a draddodwyd ar noson gyntaf Gŵyl Llanw yn Aberystwyth, 18 Ebrill 2022)

Ffydd a Diwylliant

Y sampler sgi-wiff

Hen sampler. Geiriau doeth. ‘Duw Cariad Yw’, efallai. Pob pwyth yn ei le. Wedi ei fframio’n sgwâr a’i osod yn falch ar y wal.

Ond y tu ôl i’r cyfan mae yna lanast. Clymau. Cudynnau. Edafedd blêr.

Atgoffodd y rhain fi o ryw beth wnes i ei ddarlenn yn ddiweddar, gan ddiwinydd o’r enw Nadia Bolz-Weber.

Mae hi’n arweinydd eglwys anghonfensiynol. Mae hi ei hun yn anghonfensiynol. Mae’r rhai mae’n eu harwain yn anghonfensiynol. Ac mae’n dewis gwneud hynny mewn ffordd anghonfensiynol. Mae hi wedi byw yn lliwgar ac yn galed. Mae’n blastar o tatws. Bu’n *stand-up*, yn alcoholig ac yn camddefnyddio cyffuriau, ac er ei bod hi, efallai, wedi’i gweld ei hun ar y cyrion ac ar y tu allan, doedd Crist byth yn bell. Trwyddi hi daeth pobl eraill, tebyg iddi, o hyd i lwybr at Grist hefyd. Mae traean ei chynulleidfarn perthyn i’r gymuned LGBTQ ac mae ganddi gynorthwydd sy’n frenhines-drag.

Ond cafodd achos i boeni ynglŷn â llwyddiant ei heglwys. Ar ôl ychydig, yr hyn a’i trawodd oedd fod pobl ‘normal’ yn awyddus i fod yn rhan o’i chynulleidfa. Pobl wyn, ddsbarth canol, canol y ffordd, oedd yn teimlo atyniad cryf tuag at yr eglwys ryfedd a llawn rhyfeddodau yr oedd hi’n ei harwain. A wyddai hi ddim cweit be i wneud â nhw.

Sylwedolodd, wrth gwrs, os mai yn ei heglwys hi yr oedd y bobl yma’n gweld Crist, nad oedd ganddi le i gau’r drws yn eu hwyneb. Croesawodd nhw, ond ar ei thelerau ei hun, wrth reswm.

Tybed nad felly oedd hanes yr eglwys, y dylai hanes ein heglwys fod? Cartref i bobl sy wedi byw a byw’n galed, a dim gwahaniaeth ganddyn nhw rannu hynny drwy eiriau neu drwy greithiau ar groen. Onid y rhain fyddai o gwmpas Crist? Onid y rhain oedd yn dangos Crist am yr hyn oedd o? Ac onid wedyn y dylai’r gweddill cyfforddus ymuno, ar delerau’r gymuned greiddiol honno?



Wrth edrych ar berffeithrwydd y sampler gorffenedig, pa obaith sydd yna i unrhyw un sy’n methu hyd yn oed gwnïo botwm weld lle iddo neu iddi’i hun yn unrhyw le yn y ffrâm? Ond o droi’r sampler fel arall, oni ddylai pawb weld lle iddyn nhw eu hunain yn y darlun?



Efallai ein bod ni wedi dangos gormod o sampleri gorffenedig, perffaith, i’r byd dros y canrifoedd. Rydyn ni wedi gwadu bod y blerwch rhyfedda y tu ôl i bob gwaith gorffenedig. Rydyn ni hyd yn oed wedi esgus bod yr hyn sy tu ôl i’r wyneb yr un mor ddestlus â’r hyn sy’n wynebu

at allan. A Duw a wŷr nad ydan ni wedi treulio oriau’n poeni am y ffrâm, yn gwneud yn siŵr ei bod yn sgwâr ar y wal, ac yn polishio, hyd yn oed os ydy hi wedi mynd i hel llwch yn ddiweddar.

Efallai ei bod hi’n bryd troi’r sampler a’i wyneb at y wal a’i osod ar sgi-wiff.

Peidiwch â phoeni: fe fydd yn dal i ddweud ‘Duw Cariad Yw’, hyd yn oed o’i ddarlenn am yn ôl.

Arwel Rocet Jones



Dyma gyfarfod hyfryd iawn

Adnabod gelyniaeth, wynebu methiant, a phrofi trugaredd

Galwad i addoli

Darllen – Datguddiad 5:11–14

Eryn 304 ‘Henffych i enw’

Gweddi

Arglwydd Iesu, mawrygwn y fraint a estynnwyd i ni eto heddiw o gael sefyll yng nghwmpeini saint yr oesoedd ac ymuno ym mawl y nef. O! am fraint a estynnwyd i lu'r nef: cael gweld dy ogoniant heb len a'th adnabod fel unig Arglwydd, unig brynwr, a'r unig Un sy'n eistedd ar ganol bwriadau'r nef. Mae'r nef a'r ddaear a phopeth sydd ynddynt yn dyblu'r mawl. Dyro i ni gipolwg, drwy dy Ysbryd Glân, ar aruthredd dy ogoniant a dena'n serch o bob ryw fan i'th garu.

Darllen / Canu Salm 30 ‘Dyrchafu'r Arglwydd’ ar y dôn Cwmgieidd 76.76.D

Darllen Actau 9:1–20 ‘Adnabod gelyniaeth a phrofi trugaredd’

Wrth gofio'r cyfarfyddiad hwn, medrai'r Apostol Paul adnabod ôl gras anhaeddiannol yr Arglwydd tuag ato (1 Timotheus 1:12). Trugaredd Duw yn unig a drodd erlidiwr yn dyst i ogoniant Iesu Grist. Cyfarfod Iesu Grist ar y ffordd i Ddamascus oedd y profiad a drawsnewidiodd ei fywyd. A nod ei fywyd o hynny allan oedd dod i'w ‘adnabod ef a grym ei atgyfodiad’. Deallodd Saul mai ei awydd am burdeb a chyfiawnder crefyddol a yrrodd ei ddyuniad i ddifa pobl y Ffordd. Roedd yn dipyn o sioc i Saul, er ei fod yn allanol yn ymddangos mor grefyddol, fod ei sêl mewn gwirionedd yn cuddio casineb: at Dduw, a'i Fab Iesu Grist!

Fe all y ‘crefydda’ mwyaf parchus, fel y fadarchen sy'n ymddangos yn debyg i fadarch bwytdwy, guddio'i wenwyn. Gall caru sefydliadau, neu urddas, neu barchusrwydd crefyddol guddio, dros dro, gasineb at yr Arglwydd Iesu.

Yn y cyfarfyddiad rhyfeddol hwn cyfarfu Saul ag Arglwydd newydd, sef ‘Iesu yr hwn yr wyt yn ei erlid’. Wrth gydnabod arglwyddiaeth Iesu daeth yn aelod o deulu newydd; onid oedd raid i Ananias, yn anfoddog braidd mae'n wir, gydnabod ei erlidiwr fel ‘brawd’? Mewn edifeirwch ildiodd Saul o Darsus i'r Arglwydd a'i carodd ac a roddodd ei hun drosto. Fe'i bedyddiwyd i enw Iesu. Derbyniodd gyfeiriad a gorchwyl newydd. Ni fedrai, costied a hostio, ymatal rhag dweud wrth bob creadur am rinweddau'r Arglwydd Iesu Grist.

Er nad yw profiad pob un ohonom yn dilyn union batrwm dramatig yr Apostol Paul, mae pob Cristion yn adnabod ôl gras a thrugaredd ar ei fywyd, ynghyd â chyffyrddiad yr Ysbryd Glân. Gŵyr beth yw treulio oes yn edifarhau ac ildio'n ddyddiol i ddylanwadau grasol yr Ysbryd Glân. Dyna beth a olyga i ni fyw o dan arglwyddiaeth Iesu.

Darllen Ioan 21:1–19 ‘Wynebu methiant, profi trugaredd’

Efallai fod y dywediad ffraeth, ‘mae'n *déjà vu* unwaith eto!’, yn disgrifio'r hyn a gofnodir gan Ioan yn yr adran hon. Gwyddom oll y gall lleoliadau, golygfeydd neu arogleuon arbennig ddeffro atgofion ynom. Weithiau byddant yn dwyn atgofion hapus, ond gall arogl (er enghraifft) neu gân arbennig ailagor doluriau neu friwiau oedd yn crawni ynghudd yn ein calonnau.

I'r Apostolion, roedd y *déjà vu* hwn yn gwbl iachusol.

Dyma ddyinion ‘dewr’ oedd wedi ffoi a gadael eu hathro yn awr ei gyfyngder. Dim ond o hirbell y daethant i wyluo'i ddiennyddiad creulon. Dacw Pedr oedd, er ei ymffrost gwag, wedi gwadu Iesu deirgwaith ar nos ei frad. Nid oedd yr Apostolion wedi credu, er iddo'u dysgu y deuai angau creulon ac atgyfodiad i'w ran, y byddai Iesu'n atgyfodi. Dydy pobl farw ddim yn dod yn ôl yn fyw!

Dyma bobl oedd yn byw mewn dryswch a gyda chywilydd. Doedden nhw ddim wedi credu eu hathro; methiant oedd eu proffes. Hyd yn oed wedi iddynt ei weld a'i addoli fel Arglwydd a Duw, nid oeddynt yn medru dirnad beth oedd arwyddocâd y profiadau yr oeddynt yn byw drwyddynt.

Gallwn ddychmygu'n rhwydd iawn bysgotwyr profiadol oedd wedi eu drysu'n llwyr gan amgylchiadau yn crefu am yr hyn oedd yn gyfarwydd ac yn sefydlog. Roedd angen bywoliaeth arnynt. Beth allai fod yn fwy naturiol nag ailafael mewn gorchwylion cyfarwydd?

Déjà vu

Tair blynedd ynghynt roedd Pedr a'i gyfeillion wedi pysgota drwy'r nos heb unrhyw ddalfa, cyn i Iesu, ar ddechrau ei weinidogaeth gyhoeddus, ymyrryd a'u hannog i fwrw i'r dwfn drachefn. Yn y ddalfa ryfeddol a ddaeth i'w rhan y bore hwnnw, er iddynt bysgota drwy'r nos yn aflwyddiannus, adnabu Ioan yn gyntaf a

thystio i Pedr mai'r Arglwydd Iesu oedd yr hwn a safai ar y lan. Ni fyddai unrhyw un o'r rhai oedd gydag ef yn y cwch wedi medru atal Pedr, y gŵr pechadurus a giliai gynt o bresenoldeb Iesu, rhag brysio at Iesu.

Wedi cyrraedd y lan, gwahoddwyd y disgyblion lluddedig i rannu mewn arlwy yr oedd Iesu ei hun wedi ei baratoi ar eu cyfer. Er iddo'u hannog: ‘Dewch â rhai o'r pysgod yr ydych newydd eu dal’, nid oedd amheuaeth nad Iesu a ddarparodd y bara, y pysgod a'r tân. Ac yn y ‘Dewch, cymerwch frecwast’, yn nhoriad y bara a'r pysgod, cafodd y disgyblion eu hatgoffa o'r swper rhyfeddol hwnnw wedi i Cleopas a'i gymydog ddychwelyd o Emaus ar noson gyntaf yr Atgyfodiad.

Prin y medrai Pedr yn y gwyll boreol hwnnw fod wedi anghofio'i fod wedi sefyll gerllaw tân golosg ychydig ddyddiau ynghynt. Onid oedd yng nghyntedd yr archoffeiriad wedi gwadu Iesu? Tybed nad edrychodd Iesu arno'r eilwaith ac na fu i'r edrychiad hwnnw ddeffro ym Mhedr yr euogrwydd a'r cywilydd yr hoffai fod wedi eu claddu o'r golwg. Ond nid condemnio oedd bwriad Iesu.

Yno, a'r wawr yn torri, gofynnodd Iesu i Pedr a oedd yn ei garu. Deirgwaith datganodd Pedr ei fod yn ei garu. Oni wyddai Iesu hynny eisoes? Tybed nad Pedr ei hun a gafodd ei synnu at angerdd ei ymateb ac at ddyfnder ei gariad at Iesu?

Ac fel ei feistr, y bugail da ei hun, coleddu'r mamogiaid, arwain ei braidd i borfeydd gwelltlog a bugeilio praidd yr Arglwydd fyddai'r alwad ar fywyd Pedr o hyn allan. Trodd y ‘pysgotwr pobl’ yn fugail praidd.

Ond er iddo dderbyn gorchwyl mor aruchel a galwad mor ddwys, ac er i Iesu ei rybuddio mai dienyddiad creulon a'i harhosai, roedd un alwad yn waelodol ac yn arhosol i bob gorchwyl, cyfrifoldeb a her arall. ‘Canlyn fi’ yw'r alwad i bob un, beth bynnag fo'i swyddogaeth.

Eryn 164 ‘Un fendith dyro im’

Gweddi

O na allwn garu'r Iesu
yn fwy ffyddlon, a'i was'naethu;
dweud yn dda mewn gair amdano,
rhoi fy hun yn gwbl iddo.

Amen.

RWJ

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru. Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:

watcyn@cennad.cymru | huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com

www.cennad.cymru | [f CennadCymru](https://www.facebook.com/CennadCymru) | [@CennadCymru](https://www.instagram.com/CennadCymru)